

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Gwersi Beiblaidd o'r Testament Newydd

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Actau 18: 1-11

Gwers 1 Anturiaethau Paul – 'Rhannu gydag eraill'

Yn y bennod ddiwethaf, roedd Paul yn hen ddinas Athen. Yn y Darlleniad hwn o'r Beibl, mae Paul yn cyrraedd dinas fawr arall ar ei ail daith genhadol.

C Ticiwch y blwch i ddangos enw'r ddinas.

Corinth

Alexandria

Rhufain

1



ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 18: 9 a 10

Ar ôl cyrraedd, daeth yn ffrindiau â gŵr a gwraig a'u helpu yn eu gwaith.

CROESAIR


C Cewch wybod pwy oedd y ffrindiau hyn a beth oedd eu gwaith trwy lenwi'r Croesair.

Cliwiau i Lawr

1. Y man lle cafodd y dyn ei eni.
3. Enw'r dyn.
4. Dyma roedd Paul a'i ffrindiau yn eu gwneud.

Cliwiau ar Draws

1. Enw'r wraig.
 2. Roedd rhaid i'r holl Iddewon adael y ddinas hon.
 5. Y wlad y daethon nhw ohoni.
- Yr _____



6

Bob wythnos, roedd Paul yn cyhoeddi'r newyddion da am yr Arglwydd Iesu.

- C** I ble'r oedd Paul yn mynd bob wythnos?
Ar ba ddiwrnod o'r wythnos oedd e'n mynd yno?
Â phwy oedd e'n siarad?

	a	

4

Pan ddaeth ffrindiau Paul a oedd hefyd yn genhadon yn ôl ato, rhoddodd ei amser i bregethu wrth yr Iddewon.


- C** Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i gael gwybod pwy oedd y ffrindiau hyn.

S A S L I

E S M I T H U T O

2

Roedd Paul wrth ei fodd yn pregethu am Iesu Grist ond, gwaetha'r modd, fel o'r blaen, doedd llawer o'r Iddewon ddim yn awyddus i wrando. Felly, dywedodd Paul wrthyn nhw y byddai'n mynd at y Cenedloedd, sef y bobl nad oedden nhw'n Iddewon. Ar ôl dweud hynny, gadawodd y synagog a dechrau pregethu yn y tŷ drws nesaf!



1

- C** Ysgrifennwch enw'r perchennog o dan y tŷ.

Ar ôl i Paul bregethu, daeth arweinydd y synagog i gredu yn Iesu.

- C** Tynnwch lun o law'r dyn at enw'r arweinydd.



GALIO

CRISPUS

JWSTUS

CLAWDIUS

1

- C** Beth wnaeth llawer o bobl eraill Corinth wrth glywed y neges?
Rhowch ✓ yn y blychau cywir.

Fe wnaethon nhw ... weiddi bŵ ar Paul credu cael eu bedyddio bwlio Paul

2

Un noson, cafodd Paul weledigaeth. Siaradodd Duw ag ef.

- C** Darllenwch yr Adnod Allweddol a thanlinellu dau o'r pethau a ddywedodd Duw.

“Dos yn ôl i Athen.” “Paid ag ofni.”

“Ni fydd neb yn gwneud niwed i ti.”

“Rwyf fi gyda thi.” “Fe wnei di ddioddef er fy mwyn i.”

Dywedodd Duw wrth Paul fod llawer o bobl yng Nghorinth yn mynd i ddod yn Gristnogion. Roedd Duw am ei annog i ddal ymlaen i bregethu'r efengyl i'r Corinthiaid.

1

- C** Ticiwch yr ateb cywir i ddangos am faint o amser yr arhosodd yno.

Blwyddyn a 4 mis

Dwy flynedd a 3 mis

Blwyddyn a 6 mis

Mae'n bwysig i ni sôn wrth bobl eraill am Iesu Grist. 'Tystiolaethu' yw'r enw ar hynny. Os ydych chi'n Gristion, gofynnwch i Dduw eich helpu i sôn wrth eich teulu a'ch ffrindiau am yr Arglwydd Iesu.



DARLLENWCH
Actau 23: 10-24
a 24: 22-27




ADNOD
ALLWEDDOL
Salm 18: 30

Gwers 2 Anturiaethau Paul – 'Y Cynllwyn i'w Ladd'

Ydych chi wedi meddwl erioed, "Pam mae pethau drwg bob amser yn digwydd i mi?"? Efallai bod pobl yn pigo arnoch yn yr ysgol neu'ch bod yn cael damweiniau'n aml. Efallai bod Paul yn teimlo fel hyn hefyd, achos roedd ei elynion bob amser yn ymosod arno. Daliodd tyrfa o Iddewon ef yn y Deml yn Jerwsalem. Pe na bai'r milwyr Rhufeinig wedi camu i mewn yn sydyn, byddai wedi cael ei ddyrnu'n ddarnau ganddynt! Aeth y Rhufeiniaid â Paul i'w castell neu bencadlys er mwyn ei gadw'n ddiogel. Ond roedd yr Iddewon yn benderfynol eu bod am ei ladd. Y noson honno, safodd yr Arglwydd yn ei ymyl a'i galonogi.

Edrychwch ar y Darlleniad o'r Beibl i weld beth ddigwyddodd.

C Ysgrifennwch beth ddywedodd yr Arglwydd.



2


Roedd Paul yn siwr erbyn hyn mai Duw oedd yn rheoli'r sefyllfa. Drannoeth daeth criw o Iddewon at ei gilydd a phenderfynu lladd Paul.

C Rhowch gylch o gwmpas y ddau beth nad oedden nhw ddim am eu gwneud nes bod Paul wedi marw.



2

C Ysgrifennwch ar y gyllell faint o bobl oedd yn rhan o'r cynllwyn.



Dros _____ o ddynion.

1

C Tanlinellwch y frawddeg sy'n disgrifio'u cynllwyn i ladd Paul.

Roedden nhw am ymosod ar y castell a'i ladd.


Roedden nhw am ymosod yn sydyn wrth i'r capten ddod ag ef i lawr i gael ei holi.

Roedden nhw am wenwyno'i fwyd.

1

C Pwy glywodd am y cynllwyn?

1



Pan ddywedodd hwnnw wrth Paul am y cynllwyn, anfonodd Paul ef at y capten. Felly, trefnwyd i Paul gael ei symud er mwyn bod yn ddiogel. Trefnwyd i Paul gael ei hebrwng i Gesarea.

C Rhowch ✓ neu X i ddangos a oedd y rhain yn hebrwng Paul:-



Dau gant o filwyr.

Chwe deg o wŷr meirch.

Tri chant o bicellwyr.

Wyth deg pump o gleddyfwyr



4

C Ysgrifennwch enw'r rhaglaw (llywodraethwr) yr oedden nhw'n mynd â Paul i'w weld.



1

Bum niwrnod wedyn, bu'n rhaid i Paul amddiffyn ei hunan eto.

C Darllenwch Actau 24: 22.

Roedd y llywodraethwr yn mynd i aros am rywun cyn gwneud ei benderfyniad.

Pwy oedd hwn?

Beth oedd ei deitl?

2

Cafodd Paul ei alw i gyfarfod gyda'r llywodraethwr a'i wraig.

C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ai peidio:-

Soniodd Paul am ffydd yng Nghrist Iesu.


Soniodd am farn.

Credodd Ffelix a chafodd ei fedyddio

3

Buon nhw'n trafod yr efengyl ond wnaeth Ffelix ddim edifarhau a chredu. Gadawodd Ffelix Paul yn y carchar am ei fod yn awyddus i blesio'r Iddewon. Ar ôl dwy flynedd, daeth llywodraethwr newydd yn ei le.

C Ysgrifennwch enw'r llywodraethwr newydd yn yr allwedd.



1

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

2

Er nad oedd yn deall popeth oedd yn digwydd, roedd Paul yn gwybod bod Duw'n gofalu amdano a bod addewidion ei Air yn wir. Roedd Paul yn gallu bod yn hyderus am ei fod yn ymddiried yn Nuw.

Ydych chi wedi ymddiried yn Iesu Grist i'ch achub? Ydych chi'n ymwybodol ei fod yn eich helpu ac yn aros gyda chi bob dydd? Mae pobl sy'n ymddiried yn yr Arglwydd Iesu fel Ffrind a Gwarddwr yn gallu wynebu problemau bywyd yn well. Maen nhw'n gwybod mai Duw sy'n rheoli hyd yn oed pan fydd anawsterau'n codi.




DARLLENWCH
Actau 25: 13-22
a 26: 13-32



ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 26: 22

Gwers 3 Anturiaethau Paul – 'Gerbron y Brenin'



Yn Actau 25: 13-22,
mae Ffestus, y Llywodraethwr, yn sôn wrth y Brenin Agripa am Paul, y carcharor. Yna, mae Agripa'n gofyn am gael gwrando ar Paul drosto'i hunan

Yn Actau 26: 13-32,
mae Paul yn ei amddiffyn ei hunan gerbron y Brenin Agripa.

Weithiau, yn ystod y gwyliau, efallai y byddwch yn mynd i weld nifer o wahanol berthnasau. Maen nhw i gyd yn holi sut mae pethau'n mynd yn yr ysgol. Ar ôl i chi ddweud yr un peth dair neu bedair o weithiau, efallai y byddwch yn meddwl "Sawl gwaith eto y bydd raid i mi ddweud hyn?" Efallai bod Paul yn teimlo fel hyn ar ôl dweud ei hanes wrth nifer o wahanol swyddogion oedd wedi cael eu penodi i wrando ar ei achos. Ond doedd dim ots ganddo achos roedd yn defnyddio pob cyfle i sôn wrthyn nhw am yr Arglwydd Iesu.



C Ysgrifennwch yr atebion i'r cwestiynau hyn ac yna rhowch gylch o'u cwmpas yn y Pos Geiriau. (Maen nhw wedi'u hysgrifennu am yn ôl, ymlaen, i lawr ac i fyny).

Y	P	A	P	I	R	G	A	J		
R	A	E	T	S	I	R	C	E		
R	H	U	F	E	I	N	W	Y	R	
F	L	E	F	O	G	L	L	A	W	
F	F	E	S	T	U	S	N	G	Y	S
E	B	E	R	N	I	C	E	A		
L	A	E	R	A	S	E	C	L		
I	L	B	R	E	N	I	N	E		
X	+	N	O	W	E	D	D	I	M	

1. Yn Actau 26: 24, mae rhywun yn dweud bod Paul yn _____.

2. Pwy sy'n dweud hyn?

3. Pwy ddaliodd Paul yn y Deml? (26: 21)

4. Beth oedd teitl brenhinol yr ymwelydd? (25: 13)

5. Lle cafodd Paul ei roi ar brawf? (25: 14)

6. Pwy a adawodd Paul yn y carchar? (25: 14)

7. Ym mha ddinas gafodd Paul ei gyhuddo? (25: 15)

8. Enw arall ar Iesu neu'r Meseia.

9. Pwy oedd bob amser yn rhoi achos teg? (25: 16)

10. Pwy oedd y brenin ddaeth ar ymweliad?

11. Pwy weddiodd y byddai'r brenin yn dod yn Gristion? (26: 29)

12. Pwy ddaeth gyda'r brenin?


C Ysgrifennwch y llythrennau sydd ar ôl (o'r chwith i'r dde gan symud i lawr y Pos Geiriau) i gael gwybod am beth fu Paul yn siarad â'r Brenin Agripa. ____ / _____

C Darllenwch yr Adnod Allweddol a rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ai peidio:-

2

Roedd Duw'n helpu Paul i dystiolaethu.
 Dim ond wrth bobl fawr (bwysig) roedd Paul yn tystiolaethu.

C Beth ddywedodd Ffestus pan glywodd e Paul yn siarad?



1

GRID GEIRIAU

C Er mwyn cael gwybod beth oedd yr her a roddodd Paul i'r Brenin Agripa, llanwch y GRID GEIRIAU trwy roi pob llythyren yn y lle iawn ar y gryd. Er enghraifft, 'a' yw (3,2) sef 3 ar draws a 2 i fyny.

- c: (1,4), (1,1)
- d: (4,4), (6,3), (3,2), (4,1)
- e: (3,4)(3,1)
- f: (1,2)
- i: (6,5), (8,4), (4,3)
- m: (7,4)
- n: (8,5), (2,3), (6,2)
- o: (2,2)
- r: (2,4), (2,1)
- t: (3,5), (5,5)
- u: (5,4), (5,1)
- w: (1,5), (1,3)
- y: (2,5), (7,3), (5,2)

5							'	
4					?			
3								
2								
1								
	1	2	3	4	5	6	7	8


4

Beth yw'ch ateb chi i'r cwestiwn, "Wyt ti'n credu?"?

Ydych chi'n gohirio ateb, fel y gwnaeth Ffelix? (Actau 24: 25)
 Neu efallai'ch bod fel Ffestus, yn y Darlleniad o'r Beibl, yn meddwl mai dim ond pobl wallgof sy'n Gristnogion. Neu hwyrach eich bod fel y Brenin Agripa, bron â chael eich perswadio ond heb ymddiried yn yr Arglwydd Iesu.

Cafodd y dynion hyn i gyd gyfle ardderchog i gael eu hachub ond, gwaetha'r modd, aethon nhw ddim mor bell â derbyn Iesu Grist yn Arglwydd ac yn Waredwr. Gofalwch nad ydych chi'n gwneud yr un peth â nhw ac yn colli'ch cyfle. Yn lle hynny, byddwch fel Paul a allai ateb ei gwestiwn ei hunan â'r geiriau :-

"Mi wn pwy yr wyf wedi ymddiried ynddo".
 (2 Timotheus 1: 12)






DARLLENWCH

Actau 27: 13-14, 20-44
a 28: 1-9ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 27: 25**Gwers 4 Anturiaethau Paul – 'Llongddrylliad'**

Daeth anturiaethau Paul i ben mewn ffordd gyffrous iawn. Os ydych am fwynhau'r stori ar ei hyd, darllenwch benodau 27 a 28 i gyd.

Ydych chi wedi bod mewn sefyllfa anodd lle roeddech yn poeni neu'n ofnus? Pan fyddwn ni'n gadael i Iesu Grist reoli ein bywydau ni fel y gwnaeth Paul, byddwn ni'n dal i gael problemau ond bydd Iesu'n ein helpu i ddelio â nhw.

C Daeth y storm ar ôl iddyn nhw basio'r ynys hon. _____ (a.13)



1

C Yn y Pos Geiriau, lliwiwch y geiriau am y ddau beth nad oedden nhw wedi'u gweld ers dyddiau lawer.

r	o	e	dd	h	p	o
b	a	g	o	b	a	i
th	u	a	m	l	g	a
e	l	s	e	u	e	h
a	ch	u	b	r	y	n
d	i	f	l	a	nn	u

2

C Ysgrifennwch y llythrennau sydd ar ôl yn y Pos Geiriau yn eu trefn i gael gwybod sut yr oedd pawb yn teimlo yn ystod y storm.

1

Ceisiodd Paul godi calon pawb oedd ar y llong trwy roi neges arbennig gan Dduw.

C Gan ddefnyddio Actau 27: 24, ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN, beth ddywedodd Duw wrth Paul.

2

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a RHOI CYLCH O GWMPAS y gair a ddefnyddiodd Paul i ddangos ei fod yn siŵr y byddai Duw'n cadw'i addewid i'w hachub nhw.

2

Ar ôl i Dduw siarad ag ef, dechreuodd Paul annog pawb ar y llong i fwyta. (Darllenwch Actau 27: 33-44)

C Rhowch ✓ neu X i d dangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ai peidio:-

Diolchodd Paul i Dduw am y bara.

Ar ôl hynny, roedd y dynion yn drist ac yn ddig.

Roedd y canwriad yn awyddus i achub bywyd Paul.

Dihangodd pawb yn ddiogel i'r lan.

4

C Beth oedd enw'r ynys lle'r oedd y llongdrylliad? _____

Roedd pobl yr ynys yn gyfeillgar ac fe wnaethon nhw gynnu tân ar gyfer y llongwyr am ei bod hi'n oer ac yn bwrw glaw.

1

C Ar y llun, tynnwch lun y peth a gydiodd yn llaw Paul.

C Beth ddigwyddodd i Paul nesaf?

Bu farw. Dim byd. Chwyddodd ei law. Roedd yn sâl iawn.



1

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob un o'r pethau hyn i gael gwybod pwy oedd yn gofalu am Paul ar yr ynys.





1

1

C Ysgrifennwch ar y calendr am faint o ddyddiau yr arhosodd Paul gydag ef.

C Tynnwch linell trwy'r atebion anghywir i gael gwybod beth ddigwyddodd yn ei gartref.

Roedd mab / tad / gwraig Poplius yn sâl â thwymyn / y frech goch / wedi torri ei goes ac felly gwaeddodd / criodd / gweddïodd Paul a rhoi ei ddwylo arno a'i iacháu.

1

3

Ar ôl tri mis, aeth Paul ymlaen â'i daith i Rufain. Cafodd ei gadw'n garcharor yn ei gartref yno ond roedd pobl yn cael mynd i'w weld. Os darllenwch chi'r adnod olaf un yn Llyfr yr Actau, fe welwch beth a wnaeth Paul yno. Ie, hyd y diwedd, roedd Paul yn sôn wrth bobl am ei Waredwr, yr Arglwydd Iesu. Unwaith eto, roedd Paul wedi ymddiried yn Nuw mewn sefyllfaoedd anodd. Roedd yn gwybod na fyddai Duw yn ei siomi. Os ydych chi, fel Paul, yn trystio Iesu Grist, bydd ef yn maddau eich pechodau chi ac yn eich helpu ym mhob sefyllfa yn eich bywyd. Ni fydd byth yn eich siomi.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts. Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120